Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(143)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymddiswyddiad Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cyflwyno Bil Addysg (Cymru) (60 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cymwysterau yng Nghymru – gohiriwyd**

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

**6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 i drin Bil a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) fel Bil Brys y Llywodraeth (20 munud)**

NDM5279 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol sefydlog 26.95 yn:

Cytuno bod Bil llywodraeth a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.

Danfowyd gwybodaeth ynghylch prif ddibenion y Bil  a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) at Aelodau'r Cynulliad ar 25 Mehefin 2013.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu na fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu sicrhau bod y Bil arfaethedig yn destun proses graffu ddigonol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i ddilyn y weithdrefn Bil Cyhoeddus lawn ar gyfer y Bil, ac ystyried y cyfle a gafodd i wneud hynny.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Nodi;

a) fod prif ddibenion y Bil arfaethedig yn cynnwys dulliau pennu cyflogau, a;

b) nad yw'r gyfraith cyflogaeth wedi'i rhestru o dan Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Dogfennau Ategol**
[Gwybodaeth ynghylch prif ddibenion y Bil a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru)]

[Nodyn briffio gan y Llywydd – Bil Sector Amaethyddiaeth (Cymru)]
[Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yng Nghymru a Lloegr – Nodyn ymchwil]

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) i gytuno ar amserlen ar gyfer y Bil a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) (5 munud)**

NDM5280 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.98(ii) yn:

Cytuno y bydd yr amserlen ar gyfer Bil Brys llywodraeth a gaiff ei alw'n Fil Sector Amaethyddol (Cymru) fel ag y mae yn 'Amserlen ar gyfer ystyried Bil Sector Amaethyddol (Cymru)' a osodwyd ger bron y Cynulliad ar 25 Mehefin 2013.

Dogfen Ategol
[Amserlen ar gyfer ystyried Bil Sector Amaethyddol (Cymru)]

**8 Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013 (15 munud)**

NDM5277 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2013.

Dogfennau Ategol
[Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Diwygio Deddf Addysg 1996) (Cymru) 2013]
[Memorandwm Esboniadol]

**9 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (120 mins)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae’r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe’u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

1. Hyrwyddo trawsblannu
1, 66

2. Adnoddau i Fyrddau Iechyd Lleol
40

3. Adolygu’r system gydsynio
67

4. Cydsynio i roi organau: deunydd a eithrir
2, 7, 8, 17, 29I, 29B, 29C, 29D, 29A, 29E, 29F, 29G, 29H, 29, 33, 34, 35, 36, 38

5. Cydsynio i roi organau: cydsyniad tybiedig
41, 47, 48, 49, 50, 69, 63, 64

6. Cynrychiolwyr penodedig
3A, 3, 42, 4, 43, 44, 45, 46, 52, 11A, 11, 12, 56, 57, 58, 59, 60, 61, 62

7. Technegol a chanlyniadol
5, 6, 9, 10, 13, 14, 15, 16, 18, 19, 32, 37

8. Cydsynio: cydsyniad datganedig
51

9. Cydsynio: oedolion a eithrir
53, 54, 55, 68

10. Cynrychiolwyr penodedig: plant
20A, 20, 21A, 21, 22A, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28A, 28B, 28, 30, 31, 39

11. Rhoi organau’n ymwneud ag oedolion byw nad yw’r galluedd ganddynt i gydsynio
70, 71, 72

12. Preserfio deunydd at ei drawsblannu

73

13. Canllawiau
65, 74

Dogfennau Ategol
Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau
Grwpio Gwelliannau

**10 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 27 Mehefin 2013 i'w hateb ar 2 Gorffennaf 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)1162(FM)

2. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn Nhorfaen? OAQ(4)1167(FM)

3. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain? OAQ(4)1156(FM)

4. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau twristiaeth treftadaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1168(FM)W

5. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol? OAQ(4)1157(FM)

6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch

model pwerau a gedwir yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)1159(FM)

7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddiad economaidd Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1166(FM)

8. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod digon o brotocolau diogelu ar waith ar gyfer plant ac oedolion agored i niwed? OAQ(4)1161(FM)

9. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisïau ar gyfer cefnogi gwasanaethau iechyd? OAQ(4)1164(FM)

10. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yng nghyswllt y targedau allweddol ym maes iechyd a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu? OAQ(4)1160(FM)

11. Julie James (Gorllewin Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe? OAQ(4)1163(FM)

12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bodloni safonau cydraddoldeb yng nghyswllt cyfansoddiad Byrddau Sector Cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)1165(FM)

13. Eluned Parrott (Canol De Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu prentisiaethau i'r rheini sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru? OAQ(4)1158(FM)

14. Peter Black (Gorllewin De Cymru): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Chymdeithas Undebau Credyd Prydain (ABCUL) a thîm prosiect Cornerstone Mutual Services ynghylch y Rhaglen Ehangu Undebau Credyd? OAQ(4)1155(FM)

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Mehefin 2013 i'w hateb ar 2 Gorffennaf 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gymorth y gall ei roi i gymunedau sy'n dymuno cynnal cofebion rhyfel? OAQ(4)0053(CS)

2. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei raglen waith i hybu cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)0052(CS)W

3. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i'r berthynas rhwng chwarae a chwaraeon wrth ddatblygu ei bolisïau? OAQ(4)0045(CS)

4. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i wella cyfleusterau chwaraeon yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0039(CS)

5. Keith Davies (Llanelli): Pa drafodaethau sydd wedi eu cynnal rhwng y Gweinidog a'i swyddogion a Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynglŷn â Chlwb Pêl-droed Llanelli OAQ(4)0051(CS)W

6. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfranogiad mewn chwaraeon ar gyfer pobl anabl yng Nghymru? OAQ(4)0048(CS) TYNNWYD YN ÔL

7. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth a roddir i sefydliadau celfyddydol sy'n cynrychioli Cymru dramor? OAQ(4)0044(CS)

8. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i ddatblygu chwaraeon morol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0038(CS)

9. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog plant i gymryd rhan mewn chwaraeon fel rhan o ffordd iach o fyw? OAQ(4)0037(CS)

10. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae ei adran wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn ag S4C? OAQ(4)0046(CS)W

11. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i ehangu gwybodaeth am hanes diwylliannol Cymru? OAQ(4)0050(CS)

12. Ken Skates (De Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnal digwyddiadau diwylliannol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0047(CS) TYNNWYD YN ÔL

13. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo treftadaeth lenyddol Cymru? OAQ(4)0041(CS)

14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu rôl theatr yng Nghymru o ran cyflwyno'r celfyddydau i gymunedau? OAQ(4)0043(CS)

15. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae treftadaeth Dwyrain De Cymru yn cael ei hyrwyddo i annog adfywio'r rhanbarth hwn? OAQ(4)0040(CS)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 9 Gorffennaf a dydd Mercher 10 Gorffennaf 2013

Dydd Mawrth 16 Gorffennaf a dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013

Toriad: Dydd Llun 22 Gorffennaf 2013 – Dydd Sul 22 Medi 2013

Dydd Mawrth 24 Medi a dydd Mercher 25 Medi 2013

*************************************************************************

Dydd Mawrth 9 Gorffennaf 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Cymunedau Mwy Diogel – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bennod 7 o'r Rhaglen Lywodraethu (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Blaenoriaethau Trafnidiaeth (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr Ymateb i'r Adolygiad Strategol o Wasanaethau Ambiwlans Cymru (45 munud)
- Cynnig i gymeradwyo egwyddorion cyffredinol Bil Sector Amaethyddiaeth (Cymru) (60 munud)– *yn amodol ar y Cynulliad yn cytuno i drin y Bil fel Bil Brys y Llywodraeth ac yn cymeradwyo'r amserlen arfaethedig i'r Cynulliad ystyried y Bil*
- Cynnig i gymeradwyo penderfyniad ariannol Bil Sector Amaethyddiaeth (Cymru) (5 munud)– *yn amodol ar y Cynulliad yn cytuno i drin y Bil fel Bil Brys y Llywodraeth ac yn cymeradwyo'r amserlen arfaethedig i'r Cynulliad ystyried y Bil*
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
- Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 (Cymru) 2013
- Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Diwygiad i Atodlen 1 a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gofal (15 munud)
- Dadl: Y GIG yng Nghymru - Dysgu o Ymchwiliad Francis (60 munud)

**Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
  NNDM5266

  Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
  Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)
  Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)
  Aled Roberts (Gogledd Cymru)

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  Yn cefnogi'r ymgyrch Dim Mwy o Dudalen Tri ac yn galw ar Bapur Newydd The Sun i roi'r gorau i'r cynnwys hwn.
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cartrefi Symudol (Cymru) (60 munud)
  *Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*
  *Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:*
  *Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Cartrefi Symudol (Cymru) (5 munud)*
- Dadl Fer - Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Rhaglen Ddeddfwriaethol (90 munud)
- Rheoliadau Credyd Cynhwysol (Darpariaethau canlyniadol) (Gofal Plant, Tai a Thrafnidiaeth) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl: Y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2013-14 (30 munud)

**Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Sector Amaethyddiaeth (Cymru) (60 munud)- *yn amodol ar y Cynulliad yn cytuno i drin y Bil fel Bil Brys y Llywodraeth ac yn cymeradwyo'r amserlen arfaethedig i'r Cynulliad ystyried y Bil.*
  *Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*
  *Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig:*
  *Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo Bil Sector Amaethyddiaeth (Cymru) (5 munud)*

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Ddeddfu a'r Eglwys yng Nghymru (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**Dydd Mawrth 24 Medi 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)

**Dydd Mercher 25 Medi 2013**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Amser a neilltuwyd i Geidwadwyr Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)